

24 Mawrth 2016

Annwyl ,

ATISN 10237 Y Termiadur Addysg a'r Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg

Diolch ichi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 25 Chwefror am Y Termiadur Addysg a'r Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg.

Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Y cytundeb Termiadur Addysg sy'n weithredol rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor (Atodiad 1).
- Ffeil CSV o gynnwys y Termiadur Addysg dan drwydded addas (Atodiad 2).
- Ceisiadau grant 2015-16 (Atodiad 3 yn rhestru rhain), marciau (Atodiad 4) ac amodau cyllid y Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg (Atodiad 5).
- Ceisiadau grant 2013-16 Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor (Atodiad 6)

Amgaeir copi o'r wybodaeth rwyf wedi penderfynu ei rhyddhau.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adran 43 buddiannau masnachol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 7 y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

Atodiad 7

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
Gwybodaeth a all effeithio ar fuddiannau masnachol ymgeiswyr	Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Wybodaeth

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

Gweithredu adran Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Wybodaeth

Roeddem yn tybio na fyddai pawb wnaeth ymgeisio yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai manylion eu cais yn gallu cael eu rhannu'n gyhoeddus yn dilyn cais Rhyddid Wybodaeth. Gwnaethom gysylltu gydag ymgeiswyr i roi cyfle iddyn nhw godi unrhyw bryderon am gyhoeddi cynnwys eu ffurflen gais. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai rhai darnau o wybodaeth o fewn y casgliad o geisiadau fod yn esempt o dan Adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o'r gofynion datgelu. Oherwydd pe bai'n cael ei datgelu o dan y Ddeddf uchod, byddai'n niweidio, neu byddai'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol person (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei chadw).

Mae Adran 43(2) yn esemptiad sy'n ymwneud â budd cyhoeddus. Felly er mwyn cadw gwybodaeth yn ôl o dan ei darpariaethau, rhaid dangos y daw mwy o fudd cyhoeddus o'i chadw yn ôl nag o'i rhyddhau.

Prawf Budd y Cyhoedd

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad(au), mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn *gryfach* na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth

Gallai rhyddhau gwybodaeth a geir mewn ffurflenni cais wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut rydym yn gweithredu Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfyngau Digidol Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â chwmnïau digidol a chyrff mawr a bach. Gallai datgelu'r wybodaeth ganiatáu i'r cyhoedd i ddeall yr amrywiaeth o dechnolegau dan sylw, pa opsiynau a ystyriwyd a hybu tryloywder yng nghyd-destun y gwaith rydym yn ei wneud gydag arian cyhoeddus. Yn yr ystyr hwn ac ynglŷn â'r gwaith hwn, gallai datgelu wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r gwaith ac mae'n gallu cynorthwyo llywodraethau fel Llywodraeth Cymru i fod yn fwy atebol.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn ôl yn ymwneud â'r syniadau busnes gwreiddiol a rannwyd gan gwmnïau, mudiadau a chyrff gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael eu hystyried ar gyfer grant. Pe bai'r cwmnïau wedi tybio y byddai'r

syniadau yn cael eu cyhoeddi yn agored, rhagwelir na fyddan nhw mor fodlon i gynnig syniadau mor wreiddiol a chyffrous inni y tro nesaf.

Fel rhan o'r cais, trafododd rhai cwmnïau eu cynlluniau a'u datblygiadau technolegol newydd. Gwnaethant hyn ar y ddealltwriaeth y byddai elfennau o'r wybodaeth hon yn cael eu cadw yn gyfrinachol er mwyn sicrhau cynnal mantais gystadleuol y cwmnïau yn y dyfodol mewn marchnad sydd yn gystadleuol tu hwnt. O ganlyniad, ni fwriadwyd datgelu'r wybodaeth hon yn gyhoeddus. Credwn byddai rhyddhau'r wybodaeth ar hyn o bryd yn debygol o roi mantais gystadleuol amlwg i gystadleuwyr. Gwelir y cwmnïau hyn gan lawer fel cwmnïau sy'n arwain y ffordd yn eu maes.

Gall rhyddhau'r wybodaeth hon ar yr adeg hon beri cryn risg i'r fantais hon gael ei niweidio gan y gallai cwmnïau eraill ennill gwell dealltwriaeth o gynlluniau a datblygiadau'r cwmni unigol dan sylw tra maent dal yn y cam cynllunio a datblygu. Gallai hyn arwain at gystadleuwyr yn dynwared y syniadau hyn ac ennill mantais fasnachol annheg, gan greu niwed i'r cwmni dan sylw. Yn ei dro hefyd gallai niweidio hyder buddsoddwyr a phartneriaid busnes gan eu bod yn gweld gwybodaeth sensitif a niweidiol o safbwynt masnachol y cwmni yn cael ei rhyddhau.

Mae'r ddadl hon yn cefnogi'r gangen 'byddai'n debygol o' o adran 43 (2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Cydbwysio buddiannau'r cyhoedd

Er cydnabod bod dadleuon, sy'n berthnasol i fudd cyhoeddus, sydd o blaid datgelu'r wybodaeth y gwnaed cais ar ei chyfer, rwyf o'r farn bod y budd cyhoeddus a ddaw o gadw'r wybodaeth yn ôl yn fwy na'r budd a allai ddod o'i rhyddhau yn yr achos hwn.